# **Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgol Gyfun Gŵyr**

Seilir y polisi hwn ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys i Gymru 2018 a pholisi ADY Dinas a Sir Abertawe. Cefnogir ac atgyfnerthir egwyddorion y polisi hwnnw gan nôd a threfniant cyffredinol ADY o fewn Ysgol Gyfun Gŵyr. Adlewyrcha'r polisi Côd ADY, Pennod 3, 2021, " Cefnogi'r broses o greu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu'i anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau."

## 1. Diffiniad

Mae gan blentyn/person ifanc anghenion dysgu ychwanegol (ADY) os oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd (os yw'r ADY yn deillio o gyflwr meddygol neu arall) sy'n golygu ei bod yn ofynnol gwneud darpariaeth ddysgu arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blentyn/person ifanc ADY:

a) os ydynt yn cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff y rhan fwyaf o blant yr un oed; neu

b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol.

Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol i blentyn/person ifanc dros 3 blwydd oed yn golygu addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn sy'n cael ei wneud yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn :-

a) Ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,
b) Sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu
c) Lleoedd yng Nghymru lle darperir addysg feithrin.

**Egwyddorion y Côd:**

"Cydweithredu lle mae pawb sy'n rhan o'r broses yn gweithio gyda'i gilydd er lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc." Gall y cydweithio ddigwydd rhwng:


- AALI
- Cyrff addysgol: ysgolion neu golegau
- Rhieni / Gwarcheidwaid
- Byrddau Iechyd: Doctoriaid, arbenigwyr, CAMHS
- Gwasanaethau Cymdeithasol

**Camau gweithredu os adnabyddir ADY sy'n galw am DDdY fel sy'n cael ei nodi yn y Ddeddf:**

"Os oes gan blentyn/person ifanc ADY, rhaid i'r CLl (Corff Llywodraethol) lunio CDU a chynnal y cynllun hwnnw (heblaw am eithriadau)" Côd ADY, pennod 12

Caiff CDU eu llunio a'u cynnal o fis Ionawr 2022 a disodli'r hen system GY / GY+ / Datganiadau. **NI FYDD** angen CDU ar ddisgybl sydd ar y gofrestr ADY presennol os ydy'r disgybl hwnnw yn gwneud cynnydd trwy dderbyn Darpariaeth Gynhwysol ac nid oes galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

# Darpariaeth Gynhwysol V Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol



## 2. **Nôd**

Nôd yr ysgol yw sicrhau gwerth cyfartal i bob disgybl ac i gyflawni hyn y mae'r ysgol yn derbyn y dylai pob unigolyn gael y cyfle i gyfranogi o gwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol beth bynnag yw ei anghenion addysgol arbennig ac i ddatblygu hyd eithaf ei allu o fewn y cwricwlwm hwn. Seilir y polisi hwn ar yr egwyddor o gynhwysiant ac atgyfnerthir y polisi hwn gan bolisi cynhwysiant yr ysgol. Sicrhewn ein bod yn dilyn system ddisgybl ganolog gan ystyried barn rhieni a disgyblion wrth wneud penderfyniadau.

I gyflawni hyn bydd yr ysgol yn:

i) integreiddio'r disgyblion i sicrhau dosbarthiadau gallu cymysg ym mlwyddyn 7 gan annog y defnydd o dasgau gwahaniaethol addas lle bynnag bo'r angen yn codi a lle bynnag bo'n bosib.

ii) o flwyddyn 8 ymlaen, sefydlu gweithdrefn sy'n galluogi'r disgyblion ag anawsterau i gael sylw a chefnogaeth deilwng, ac i weithio ar gyflymder addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

iii) cyflogi cynorthwywyr arbenigol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, er mwyn gweithio gydag unigolion a grŵpiau bach i gefnogi eu hanawsterau penodol.

iv) Cyflogi Uwch Gynorthwy-ydd i arwain yr Encil sy'n galluogi disgyblion ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol i dderbyn ymyrraeth i'w cynorthwyo gyda sefyllfaoedd penodol. Sicrha'r Encil fod darpariaeth a chysondeb i addysg y dysgwyr pan nad ydynt yn astudio cwrs llawn e.e. Ffrangeg ym Ml 7-9 / Tystysgrif Her Sgiliau yn CA4.

v) cyflogi Cyd-gysylltydd ADY a fydd yn
- darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i'r athrawon ar ddisgyblion penodol ag anawsterau addysgiadol amrywiol (gweler y llawlyfr Anhawsterau Amrywiol).
- gwerthuso profiadau addysgol disgyblion ag anhawsterau dysgu a monitro darpariaeth yr ysgol ar hyn.

- gweithredu fel dolen-gyswllt rhwng y plant, y rhieni, yr ysgol a'r holl weithwyr ac/asiantaethau arbenigol.
- paratoi, creu, cynnal ac adolygu'r Cynlluniau datblygu Unigol.
- paratoi'r ysgol gyfan ar gyfer cyfundrefn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwlys i Gymru 2018 o Fedi 2021 ymlaen

v) cynnal dulliau asesu ar draws y cwricwlwm sy'n cydnabod gwendidau a chryfderau disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, tracio cynnydd y disgyblion hynny a gosod targedau addas er mwyn hyrwyddo datblygiad pellach.

vi) cydnabod bod llais gan y disgybl unigol wrth drafod ei anghenion addysgol a sicrhau proffil un dudalen ac adolygiadau datganiad sy'n ddisgybl-ganolog.

vii) derbyn fod pob athro yn athro ADY a phob aelod o'r staff a chyfraniad pwysig i addysg disgyblion ag ADY o fewn yr ysgol.

**Ceir manylion penodol am drefniant yr Adran ADY, systemau asesu, darpariaeth amrywiol, y Cynlluniau Datblygu Unigol; partneriaeth ag asiantaethau allanol yn llawlyfr yr adran ADY.**

3. **Canolfan Addysg Arbenigol**

Fe agorwyd Canolfan Addysg Arbenigol o fewn yr ysgol ym Medi 2009. Mae'r ganolfan yma'n cynnig darpariaeth i uchafswm o ddeunaw o ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cyffredinol. Nôd y ganolfan yw cynnig darpariaeth arbenigol, penodol i'r disgyblion o fewn awyrgylch tawel, cartrefol, wrth hybu hyder ac annibyniaeth y disgyblion. Mae gan y ganolfan bolisi o integreiddio cryf, ac fe roddir bob cyfle i holl ddisgyblion i ymgymryd â gwersi a gweithgareddau o fewn y prif-ffrwd megis pynciau allgraidd.

Gweler llawlyfyr y Ganolfan am wybodaeth bellach am y cwricwlwm, yr asesu, y CAUau a'r cyd-weithio ag asiantaethau eraill.
*(Adolygwyd: Gorffennaf 2026)*